

## Rhaid Cael Noddfa



Mae Canolfan Gymunedol Noddfa yn dathlu pen-blwydd arbennig eleni – 70 mlynedd o genhadaeth, gweinidogaethu a gwasanaethu yn ardal Peblig, Caernarfon. Bydda innau hefyd yn nodi ugain mlynedd o weithio yn Eglwys Noddfa fel Gweithwraig Gymunedol Gristnogol cyn diwedd y flwyddyn.

Rydyn ni wedi bod yn dathlu drwy'r flwyddyn mewn gwirionedd. Cawsom de bach yn y gwanwyn a bu plant y Cynllun Chwarae yn creu murluniau arbennig yn nodi'r dathlu i'w gosod yn y brif neuadd. Ddydd Sul, 20 Medi, cafwyd oedfa arbennig iawn o ddathlu a diolchgarwch a theimlwyd Ysbryd Duw yn agos wrth i ni ddiolch am waith ddod a gweddio am arweiniad i barhau â'n cenhadaeth i'r dyfodol.

Ond dydyn ni ddim wedi gorffen dathlu eto! Derbyniodd Eglwys Noddfa grant gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gomisiynu a chynhyrchu drama newydd yn adrodd hanes sefydlu Noddfa a gwaith y Chwaer Emily Roberts, oedd yn hollol ganolog i'r gwaith. Fel dwi'n dweud yn aml,

fyddai Noddfa ddim yn bodoli oni bai am y Chwaer Emily Roberts.

Derbyniodd yr awdur a'r cyfarwyddwr Iola Ynyr y comisiwn i sgrifennu a chyfarwyddo'r ddrama. Bu Iola yn cyfarfod ac sgwrsio efo nifer oedd yn cofio Emily Roberts, gan gynnwys aelodau o EBC a thrigolion lleol ar y stad yng Nghaernarfon. Erbyn diwedd yr haf roedd y ddrama *Rhaid Cael Noddfa* yn barod, ac mae'r gwaith ymarfer bellach wedi dechrau.

Yn wreiddiol, drama un ddynes oedd y ddrama i fod, ac roeddem yn falch iawn yn Noddfa fod Siwan Llynor wedi derbyn y cais i actio rhan Emily. Bu Siwan yn gweithio am flynyddoedd efo Eglwys Noddfa fel cyfarwyddwr artistig i brosiect Cofis Bach. Ond, wrth i'r ddrama ddatblygu, roedd llais plentyn yn dod i'r amlwg. Roedd gwaith ymysg plant a phobl ifanc yn ganolog i waith Emily.



Rydym yn falch felly o allu cyflwyno un o blant Eglwys Noddfa sy'n byw daflad carreg o'r Ganolfan – Cynan Glyn Jones – a fydd yn actio yn ei ddrama broffesiynol gyntaf. Gan fod cerddoriaeth a'r piano yn rhan bwysig o mywyd i, cefais gais i ddarparu ychydig o gerddoriaeth ar gyfer y

ddrama. Erbyn hyn, mae'r 'chwarae piano' wedi troi'n ambell llinell yn y ddrama hefyd!

Bydd y ddrama'n cael ei llwyfannu yn **Noddfa ar 18 Hydref**, gyda perfformiad cymunedol adeg amser ein hoedfa yn Noddfa am 3 o'r gloch a pherfformiad agored am 6 o'r gloch. Bydd ysgolion y dref hefyd yn dod i Noddfa ddydd Llun a dydd Mawrth i weld y ddrama. Os ydych yng nghyffiniau Caernarfon ar 18 Hydref, felly, beth am ddod draw i weld *Rhaid Cael Noddfa*.

Daliwn i obeithio y bydd y ddrama yn mynd ar daith, ond mae hynny'n ddibynol ar nawdd a lleoliadau i'w trefnu.

Rhagor o fanylion: Parch. Mererid Mair Williams, Eglwys Noddfa, Canolfan Noddfa, Cil Peblig, Caernarfon LL55 2RH; ffôn: 01286 672257/07715507593

### Noddfa'n Dathlu 70

#### "Rhaid Cael Noddfa"

Drama newydd gan

Iola Ynyr

(awdur a chyfarwyddo)

gyda

Siwan Llynor fel Emily Roberts

ac yn cyflwyno

Cynan Glyn Jones

Dydd Sul 18 Hydref

6 o'r gloch yn Noddfa




Toeynnau yn £5 ar gael gan Mererid yn Noddfa neu drwy ebostio: [mererid.mair@ebpcw.cymru](mailto:mererid.mair@ebpcw.cymru)



Eglwys Bresbyteraidd Cymru

# Tymor newydd yng Ngholeg y Bala - holi Lois Franks



Mae pennod a thymor newydd wedi dechrau yng Ngholeg y Bala. Ers 1967 fe fu'r Coleg yn ganolfan i weithgaredd ieuenctid EBC ac yna i'w gweithgaredd plant a theuluoedd hefyd. Edrychwn ymlaen y flwyddyn nesaf i ddathlu cyfraniad sylweddol y Ganolfan dros y degawdau ond hefyd at bennod newydd o gydweithio Cristnogol ar draws enwadau a chyda mudiadau eraill yng Nghymru sy'n ceisio dyfodiad teyrnas Dduw yn ein plith.

Y nod yw diogelu Coleg y Bala fel canolfan ar gyfer gweithgaredd plant ac ieuenctid a theuluoedd i ni fel eglwys ac ystyried ei le ehangach yn ein gwaith o hyfforddi a chenhadu. Rydym yn falch o groesawu Lois Franks a'r teulu yno i weithio i ddatblygu gweledigaeth newydd ar gyfer defnydd ehangach o'r Ganolfan ac i hyrwyddo pob cydweithio newydd. Buom yn holi Lois am ychydig o'i hanes a'i gobeithion yn y gwaith.

## 1. Pwy wyt ti? O ble wyt ti'n dod?

Helô! Lois ydw i. Dwi'n dod o Gaerdydd yn wreiddiol ond wedi bod yn arwain eglwys yn y Rhondda am bymtheg mlynedd. Dwi'n briod â Ben ac mae gyda ni bedwar o blant: Evan, Caleb, ac efeilliaid sy'n ddwy – Ioan ac Ivy. Cyn symud i'r Bala, fe adeiladon ni ganŵ pren gyda'n gilydd er mwyn paratoi'r teulu ar gyfer y symud. Felly, os byddwch chi'n methu fy ffeindio, mi fydda i ar Lyn Tegid ynddo fe!

## 2. Pryd oedd y tro cyntaf i ti fynd i Goleg y Bala, a pham est ti yno?

Y tro cyntaf i fi fynd i'r gogledd, heb sôn am fynd i'r Coleg (!) oedd i'm cyfweiliad Blwyddyn Gap yn 2007. Roeddwn i'n llwyddiannus. Felly, symudodd merch y ddinas, oedd ddim yn siarad Cymraeg, i gefn gwlad a chael blwyddyn heriol ond hollol anhygoel!

## 3. Sut wyt ti wedi bod yn gysylltiedig â'r Coleg ers hynny?

Dwi wedi parhau i ddod lan i'r Coleg i helpu ar gyrsiau a mynd i bethau yma. Dwi wir yn credu yng ngwaith y Coleg a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud i Gymru, felly mae wedi bod yn wych aros mewn cysylltiad â phethau.

## 4. Rwyf ti ar fin cychwyn swydd arloesol yn datblygu Coleg y Bala ar gyfer pennod newydd. Beth wyt ti'n gweddïo am ei weld yn digwydd?

Mae'n gyffrous iawn, ac yn ffrainc anhygoel meddwl fy mod i'n gallu chwarae rhan fach yn stori'r Coleg, yn dilyn Siân ac Owain, Bryn a Nia ac eraill. Yn Salm 105, adn. 44, mae'n dweud: 'Cawson nhw fwynhau ffrwyth llafur pobl eraill', a dyna sut dwi'n teimlo – fy mod i'n cael mwynhau ffrwyth eu llafur ffyddlon, ac adeiladu arno.

Dwi'n meddwl y bydd llawer ohonoch chi sy'n darllen yr erthygl yma wedi bod i'r Coleg ar gyrsiau neu flwyddyn gap, neu hyd yn oed wedi gweithio yma. Mae'r Coleg wedi bod yn lle pwysig iawn i'r Deyrnas am flynyddoedd, ac mae cymaint o bobl anhygoel wedi cael eu hyfforddi a'u datblygu trwyddo. Felly, dwi'n gweddïo y bydd Duw'n parhau i weithio trwyddo ac yn cael effaith fawr ar bobl i newid Cymru a'r byd!

Mae tri pheth dwi eisiau ffocysu arnyn nhw:

- 1) Dwi'n gobeithio y byddwn ni'n gallu parhau i ddarparu profiadau Cristnogol eithriadol i blant a phobl ifanc.
- 2) Datblygu Coleg y Bala fel adnodd i'r Deyrnas yng Nghymru a thu hwnt.
- 3) Rydyn ni eisiau i Goleg y Bala barhau i wasanaethu'r eglwys am flynyddoedd i ddod. Felly, bydda i'n ffocysu ar ddod o hyd i fodel ariannol cynaliadwy!

Felly, gweddiwch drosta i, os gwelwch yn dda, y byddaf yn nabod yr Arglwydd yn agos, ac y bydd yn fy arwain ac fy arfogi bob cam o'r ffordd. Diolch yn fawr iawn! Dwi'n edrych ymlaen at ddod i'ch adnabod chi'n well a'ch gweld chi yn y Coleg yn fuan!

# 2006–2026: ugain mlynedd o arwain Coleg y Bala

Wrth groesawu Lois Franks i'w rôl newydd yng Ngholeg y Bala a chlywed mwy am ei gweledigaeth a'i chalon dros y gwaith, roeddem hefyd yn awyddus i fynegi ein diolch arbennig i Owain a Siân Edwards am eu gweinidogaeth ffyddlon a gwerthfawr yn y Coleg dros yr ugain mlynedd diwethaf.


Pa ffordd well o wneud hynny na thrwy wahodd rhai o'r myfyrwyr blwyddyn gap a fu o dan eu gofal a'u harweiniad dros y blynyddoedd (gan gynnwys Lois ei hun) i rannu gair o ddiolch a gwerthfawrogiad yn eu geiriau eu hunain? Mae'r teyrngedau canlynol yn dystiolaeth i ddyfnder eu dylanwad ac yn crisialu'n glir gymaint y mae'r ddau wedi cyfrannu at fywyd a gweinidogaeth y Coleg ac, yn wir, at fywyd ein cenedl.

'Dwi'n gwybod fod yr Arglwydd yn caru gweithio gyda chi a'ch bod chi'n caru gweithio gyda fe, a'ch bod am fendithio cymaint mwy o bobl yn y tymor nesaf. Mae yna gannoedd o bobl yn well heddiw a gyda'r Arglwydd heddiw o'ch achos chi.' **Carly Bowden**

'Diolch, diolch, diolch i chi am bopeth ry'ch chi wedi'i arllwys i fewn i fy mywyd i a bywyd gymaint o bobl eraill. Mae wedi bod yn ffrind bod o dan eich arweiniad, o dan eich gofal chi a'ch cariad, a dwi wedi dysgu gymaint gennych chi. Diolch, diolch, diolch i chi.' **Rhian Evans**

'Rydych chi wedi cael dylanwad aruthrol ar gymaint ohonom dros y blynyddoedd. Falle nad ydych chi yn oed yn sylweddoli yn union yr effaith honno drwy'r sgysiau bach, y bwydo (shout out, gapper tea), y gefnogaeth a'r gofal cyson. Mae'r Coleg wedi bod yn lle arbennig i gymaint ohonom ni wrth i Dduw weithio yn ein bywydau, ac ry'ch chi wedi bod yn rhan mor bwysig o hynny.' **Keiran Owen**

## BLWYDDYN GAP COLEG Y BALA



'Sws mawr i chi, fy ffrindiau annwyl, o Batagonia. Pob bendith i chi, a cariad mawr o'r Gaiman.' **Ariela Gibbon**

'Dwi mor ddiolchgar i'r Arglwydd am ddod â mi atoch chi am flwyddyn i Goleg y Bala. Dwi'n diolch am yr holl brofiadau wnaethon ni eu cael, ond yn fwy na hynny am y ffordd wnaethoch chi groesawu fi i fewn i'r teulu a dangos i mi beth mae *hospitality* yn ei olygu. Dwi hefyd yn diolch eich bod wedi fy annog i ystyried y Weiniadogaeth, i ystyried pregethu a gallu arwain pobl yng Ngair Duw. Roedd hynny'n rhywbeth wnaeth ddatblygu yn fy amser yng Ngholeg y Bala. Felly, dwi'n diolch i'r Arglwydd am hynny, ac yn gweddïo bendith yr Arglwydd arnoch chi wrth iddo eich arwain ymlaen.' **Aron Treharne**

'Diolch am fod yn gymaint o *role models* yn y ffordd ry'ch chi'n byw allan eich ffydd, a diolch am y ffordd ry'ch chi'n adeiladu pobl i fyny. Chi'n 'leijends' ac ry'n ni'n diolch i Dduw amdanoch chi.' **Rhys Hughes**

'Dwi eisiau dweud "diolch" enfawr am bopeth ry'ch chi wedi'i neud drosta i a nifer o rai eraill – mae gymaint o atgofion a storis. Dwi'n diolch am yr esiampl ry'ch chi wedi bod i ni o roi Crist yng nghanol popeth. Diolch am y cyfleoedd i wasanaethu mewn gwahanol ffyrdd gyda grwpiau gwahanol. Diolch am ein hannog ni i gyd yn y ffydd a hefyd am ein herio ni.' **Emyr Jones**

'Diolch gymaint i chi am y ffordd ry'ch chi wedi buddsoddi yn fy mywyd ac mewn cymaint o fywydau eraill yn y ffordd fwyaf anhygoel. Fysen ni ddim lle rydyn ni heddiw heb y gefnogaeth a'r gweddïau ry'ch chi wedi eu tywallyt i fewn i'n bywydau.' **Jack Newbould**

'Mae eich *impact* chi dros Gymru wedi bod yn enfawr, a dwi ddim yn meddwl y bysen ni'n neud beth ry'n ni'n ei wneud heddiw heb beth wnaethoch chi ei fwydo i mewn i ni. Diolch i Dduw amdanoch ac am eich holl waith dros yr 20 mlynedd.' **Gwilym Jeffs**

‘Dach chi werth y byd! Siân – dach chi mor *encouraging* a mor *empowering*. Dach chi’n neud i bobl deimlo’u bod yn cael eu gweld, fod croeso iddyn nhw; dach chi’n rhoi cyfrifoldebau i bobl hefyd i dyfu yn eu cymeriad. Owain – dach chi’n ysbrydoliaeth i fi. Mae eich ffydd chi a’ch awydd i rannu gyda phobl eraill am Grist yn rhywbeth dwi eisiau ei fodelu. Dach chi’n gweld doniau mewn pobl hefyd, ac yn rhoi cyfleoedd iddyn nhw dyfu. Diolch i’r ddau ohonoch chi – dach chi’n llewyrchu Crist mor dda.’ **Joseff Griffiths**

‘Mae gyda chi ddawn mor anhygoel am *hospitality* ac am agor eich cartref a’ch teulu i gefnogi gymaint o bobl. Diolch am roi cartref i ffwrdd o gartref a theulu i ffwrdd o’r teulu i mi.’ **Megan Anscombe**

‘Dwi’n diolch i Dduw gymaint am y ffordd dach chi wedi fy arwain i at Iesu trwy gyfnod mor heriol yn fy mywyd, ac am y dystiolaeth hyfryd dach chi wedi bod i gymaint o bobl dros y blynyddoedd. Mae’ch gwasanaeth chi i eraill, eich ffyddlondeb a’ch cariad wedi cyffwrdd cymaint o fywydau. Pob bendith i chi’ch dau wrth i chi gamu i fewn i’r tymor nesaf yn eich bywydau.’ **Eleri Barder**

‘Dwi ddim yn meddwl y galla i roi mewn geiriau’r *impact* ry’ch chi wedi’i gael ar fy mywyd i ac ar fywydau cymaint o bobl eraill. Dwi eisiau defnyddio’r cyfle yma i ddiolch i chi ac i’ch anrhydeddu chi am eich ufudd-dod i ddilyn yr Arglwydd, ac am fuddsoddi ynof i pan oeddwn i’n 18 oed. Aethoch chi *above and beyond* ac mae eich gwaddol ar draws Cymru a thu hwnt yn siarad drosto’i hun. Rydych chi’ch dau yn hollol anhygoel, a dwi mor ddiolchgar amdanoch chi. Mae’n fraint cael dilyn yn eich camau. Caru chi *loads!* **Lois Franks**

## Ordeinio blaenoriaid yn Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro



Braint oedd bod yn bresennol yng Nghapel y Garn, Bow Street, ddydd Mercher, 30 Medi 2026, pan ordeiniwyd chwe blaenor newydd yn yr Henaduriaeth. Llywyddwyd yr oedfa gan Dr Rhidian Griffiths, Llywydd yr Henaduriaeth, ac roedd yr ordeinio dan ofal y Parch. Carwyn Arthur, Llywydd y Gymdeithasfa yn y De. Ef hefyd oedd yn gyfrifol am draddodi cyngor i’r blaenoriaid newydd. Llongyfarchiadau calonnog a phob dymuniad da i Miss Eleri Davies a Mrs Eleri Hughes, Tabor, Llangwryfon; Miss Elizabeth Griffiths, Mrs Bethan Lewis, Mrs Carol Morris a Mrs Jane Smith – y pedair o eglwys Woodstock, Gogledd Penfro.

## Diolch i Dduw am 40 mlynedd o weinidogaeth y Parchg John Treharne



Ar ôl oedfa nos Sul, 27 Medi, yn y Tabernacl, Llwynhendy, cydnabuwyd deugain mlynedd John (a Helen) yn y weinidogaeth gyda chacen, tusw o flodau i Helen, cyfres o areithiau byr, a rhodd o gyfrol i John. Yn ogystal, cafwyd neges hyfryd o Gaersalem, Caernarfon, lle bu John yn weinidog rhwng 1986 a 2010.

Llywiwyd yr achlysur yn hyfryd gan y Parchg Ifan George, cyn-weinidog Maescanner, Dafen, mameglwys John. Dywedodd Ifan, ‘Boed i Iesu Grist barhau i gael ei ddychafu yn ein plith trwy weinidogaeth y Gair, a boed i Dduw godi eraill i rannu’r newyddion da am Iesu yn ffyddlon i’r dyfodol.’

## Llygaid ar Dde Sudan, 18–21 Hydref

Dewch i gwrdd ag un o bartneriaid Cymorth Cristnogol o Dde Sudan



**Angelina Nyajima Simon Jial**

Ymunwch â Chymorth Cristnogol Cymru i glywed straeon o obaith, gwydnwch a gweithredu gan Angelina Nyajima Simon Jial.

Yn Ne Sudan mae dros saith miliwn o bobl – mwy na dwbl poblogaeth Cymru – yn wynebu newyn a chyfraddau uchel o ddiffyg maeth. Eto, anaml y byddwn yn clywed sôn am hyn yn y penawdau. Trwy hyn oll mae partneriaid lleol Cymorth Cristnogol yn gweithio'n agos gyda chymunedau, yn helpu i adeiladu gwydnwch, yn ymateb i argyfyngau ac yn creu newid cynaliadwy. Felly, mae'n ffrainc rhannu cyfle i gwrdd ag un o'n partneriaid lleol o Dde Sudan yma yng Nghymru.

**Angelina Nyajima** ydy Sefydlydd a Chyfarwyddwr Hope Restoration South Sudan, un o bartneriaid Cymorth Cristnogol. Mudiad a arweinir gan fenywod yw hwn, ac mae'n gweithio gyda ffoaduriaid, pobl wedi'u dadleoli'n fewnol a chymunedau bregus. Mae Angelina'n flaenllaw yn y gwaith o amddiffyn hawliau dynol a hyrwyddo heddych. Mae'n canolbwyntio ar rymuso menywod a merched ifanc, ymateb dyngarol, datblygiad cynaliadwy ac ymateb i her newid hinsawdd, yn ogystal ag atal trais ar sail rhyw a hybu heddych yn y gymuned. Byddwn yn clywed ganddi am realiti bywyd yn Ne Sudan a'r hyn sydd yn effeithio ar gymunedau, gan gynnwys trais ar sail rhyw, a phwysigrwydd cefnogi newid sy'n cael arwain yn lleol.

**Digwyddiadau gydag Angelina yng Nghymru,**

**18–21 Hydref:**

**Pen-y-bont** – dydd Sul, 18 Hydref, 10.30–12.30 o'r gloch

**Prifysgol Caerdydd** – dydd Llun, 19 Hydref, 1–2 o'r gloch

**Minstr Abertawe** – dydd Llun, 19 Hydref, 6–8 o'r gloch

**Eglwys Ararat, Caerdydd** – dydd Mercher, 21 Hydref, 6–7.30 o'r gloch

Rhagor o fanylion am y digwyddiadau a chofrestru: <https://www.christianaid.org.uk/events/cwrdd-partneriaid-o-dde-sudan-yng-nghymru>

Gobeithiwn y byddwch yn gallu ymuno â ni i glywed gan un o'n partneriaid o Dde Sudan ac ystyried sut y gallwn ni, fel unigolion, eglwysi a chymunedau yng Nghymru, gefnogi'r gwaith o hybu heddych a gweithredu dyngarol.

## Coleg Trefeca –

### Rhaglen Addysg Ddiwinyddol newydd EBC



Ymunwch â ni am encil arbrolfodol yng Ngholeg Trefeca ar 10–12 Tachwedd, dan arweiniad Adran Hyfforddiant ac Ymgeiswyr EBC.

#### Dechrau taith newydd

Cynllun peilot yw hwn – y cam cyntaf mewn rhaglen newydd o addysg ddiwinyddol a gynlluniwyd i dyfu gyda chi.

Gallwch ymuno â'r cynllun ar unrhyw adeg – nid oes angen gwybodaeth ddiwinyddol flaenorol. Bydd eich adborth yn hanfodol wrth lunio'r rhaglen i'r dyfodol.

#### Ar gyfer pwy y mae'r rhaglen?

Yn bennaf, i'r rhai sydd eisoes yn gwasanaethu yn y Cyfundeb.

Mae hefyd ar agor i unrhyw un sy'n dymuno archwilio a dyfnhau eu ffydd a'u dealltwriaeth Gristnogol.

#### Cefnogaeth, mentora, adeiladu perthynas

Byddwch yn derbyn cefnogaeth gan diwtoriaid profiadol o fewn y Cyfundeb drwy gydol y rhaglen.

#### Beth fyddwn ni'n ei astudio?


Yn ein hencil gyntaf byddwn ni'n canolbwyntio ar feysydd allweddol bywyd a gwasanaeth Cristnogol:

- \* yr Ysgrythur ac esboniadaeth
- \* cred, addoliad a bywyd defosiynol
- \* yr Eglwys, cenhadaeth a gweinidogaeth yng Nghymru
- \* gwasanaeth Cristnogol heddiw

#### Sut fydd yn cael ei gynnal?

Bydd ein hencil preswyl yn cynnwys:

- \* addoliad a gweddi
- \* darlithoedd
- \* cyfranwyr gwadd
- \* cyfle i drafod
- \* amser ar gyfer myfyrdod personol




#### Y darlun mwy

Mae'r rhaglen yn rhan o weledigaeth ehangach fydd yn cynnig amrywiaeth o wythnosau astudio annibynnol.

#### Bydd eich llais yn gwneud gwahaniaeth


Fel rhan o'r cynllun peilot, bydd eich profiad a'ch adborth yn helpu i lunio dyfodol y rhaglen. Dewch i ddysgu, i dyfu a helpu i lunio'r camau nesaf.

Ymholiadau: [trysor@trefeca.org](mailto:trysor@trefeca.org)



# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

## Maes Llafur i oedolion 2025/26



### Codi'r Llen 39

#### Ymson Morwyn Naaman

Cipiwyd fi oddi wrth fy nheulu a'm cludo i wlad ddieithr. Ches i ddim dewis. Ro'n i'n rhy ifanc i arbed fy hun rhag cam.

Dysgais yn gyflym fod fy meistr yn ddyn uchel ei barch a bod pawb yn ei edmygu. Roedd yn dal o gorffolaeth ac yn gyhyrog, ond fe wyddwn i rywbeth arall amdano. O dan ei arfwisg, y medalau a'i ddillad crand, roedd cyflwr yn cynddeiriogi ei groen. Deuai'r cosi bob nos fel morgrug yn crafangu drosto. Yn aml, byddai'n methu ei ddioddef a'r unig beth y gallai ei wneud oedd crafu nes bod y croen yn torri. Byddai'r rhyddhad wedyn yn torri drosto fel ewyn ton ar y cefnfor mawr.

Roedd y peth yn guddiedig; ni wyddai ei wraig hyd yn oed faint y broblem. Serch fy niniweidrwydd, gwelais ei boen gorfforol a phoen ei feddwl. Efallai oherwydd fy mod innau mewn gwewyr hiraeth gallwn weld gwewyr eneidol rhywun arall. Sylweddolais fod trysorau bywyd yn ei amgylchynu, ond eto roedd yn unig.

Bûm yn dawel am gyfnod hir. Meddyliais y byddai dweud rhywbeth yn rhy beryglus. Ro'n i eisoes wedi gweld sut y gallai mentergarwch beri loes i'r rhai a feiddiai weithredu. Weithiau, roedd yn well cadw allan o bethau, dweud dim, aros yn saff.

Ond eto, oherwydd fy magwraeth, ro'n i'n gwybod am Dduw ac na fyddai'r Duw hwnnw'n anghofio amdanaf fi. Roedd siarad â Duw yn fy helpu bob bore wrth ddeffro a phob nos wrth noswyllo. Felly, penderfynais y byddwn yn codi fy llais.

Soniais am Eliseus a'i ddawn i iacháu. Un frawddeg, dyna'r cyfan oedd hi. Ond newidiodd yr ychydig eiriau hynny bopeth. Fe aeth Naaman at y brenin a chael caniatâd i deithio i weld Eliseus. Yno, wedi ychydig o styfnigrwydd, yn y diwedd plygodd i lawr ar ei liniau a gofyn am help. Yn y gwyleidd-dra

hwnnw darganfu fod rhywbeth mwy yn bodoli, rhywbeth mwy na meidroldeb hyd yn oed. Ar ôl iddo sylweddoli hynny'n fewnol, cafodd ei lanhau o'i anhwylder allanol.

Meddyliais droeon y gallwn fod wedi troi'n chwerw. Ro'n i wedi dioddef, roedd hynny'n sicr. Roedd fy sefyllfa yn un anodd, heb ddiwedd iddi. Fe allwn yn hawdd fod wedi dymuno drwg i Naaman a'i wraig. Ond yn y diwedd roedd codi fy llais yn gam grymus. Weithiau, mae helpu rhywun arall yn creu mwy o ddaioni nag ymladd yn ddiddiwedd yn erbyn ffawd. Mae maddeuant yn gallu rhyddhau; ydy, ond mae angen gweithredu hefyd. Nid yw ffydd heb weithredoedd yn dda i ddim.

Dyna pam rydw i eisiau codi fy llais unwaith yn rhagor heddiw – i siarad â'r merched sy'n gaeth o'ch cwmipas chi. Ie, chi!

Hoffwn i'r ferch ifanc sy'n gorfod gweithio yn hytrach na mynd i'r ysgol wybod bod ganddi ddewis. Hoffwn i'r ferch gafodd ei gwerthu i wasanaethu dynion wybod y dylai ddweud wrth rywun. Hoffwn gael siarad â'r merched sy'n gweithio heb gyflog yn y salon trin ewinedd er mwyn dweud bod ffordd wahanol o fyw yn bod. Dros y fenyw sy'n cael ei cham-drin, hoffwn weiddi'n uchel a'i chymell hithau i weiddi hefyd. A'r wraig sydd wedi'i charcharu dan glymau creulondeb, hoffwn ei siarsio i fynnu torri'n rhydd.

Nid yw gwerth neb fyth yn mynd yn llai yng ngolwg Duw. Beth bynnag

eu sefyllfa, mae pob enaid byw yn werthfawr. A cofiwch chithau: pan fo llais yn codi dros gyfiawnder, yn herio caethwasiaeth a chreulondeb, anghyfiawnder a thrais, ac yn sefyll yn gryf yn wyneb enbydrwydd o unrhyw fath, mae ein Duw yn clywed.

#### Holi

- Dengys stori'r forwyn sut y mae Duw'n gweithio drwy bersonau heb rym na chydabyddiaeth gymdeithasol. Ydy hi'n bosib ein bod ni'n esgeuluso pobl yn ein dyddiau ni? Os felly, pwyr?

- Mae'r forwyn yn ymateb i'r sefyllfa mewn ffordd aeddfed. Ydy hyn yn ein herio wrth inni ystyried swyddogaeth maddeuant yn ein byw a'n bod ninnau?

- Drwy gymhelliad y forwyn, gwelwn Naaman yn cael ei arwain tuag at adnewyddiad. Sut gall y stori ein hannog i newid ein hymagwedd tuag at bobl o ffydd wahanol?

- Beth ddywed y stori wrthym am yr angen inni gydnabod gwasanaeth ffyddlon y rhai dienw a'r rhai sydd heb gael eu cydnabod?

#### Gwedd

Rho inni'r dewrder i godi ein llais.  
Gwna ni'n angerddol dros ddangos tosturi.  
Bydd yn gymhelliad i'n gweledigaeth.  
Dyro inni'r gras i gyfeirio eraill at gariad. Amen.

*Siân Meinir*



*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 18 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Carwyn Siddall, Llanuwchllyn

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 18 Hydref, am 12:00yp**

Gwasanaeth o dan arweiniad Llinos Morris, Caernarfon

#### Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 18 Hydref 2026

##### S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

**Sul, 18 Hydref**

Cofio Aberfan: Nia Roberts fydd yn Aberfan, yn nodi 60 mlynedd ers un o'r digwyddiadau mwyaf trist yn hanes Cymru ac yn cofio am ymdrechion y cannoedd aeth yno i gynnig eu cymorth.



## Bugail neu Weinyddwr?

Pum mlynedd yn ôl fe wnaeth BBC Radio Wales raglen o'r enw 'The Call' fel rhan o'r gyfres *All Things Considered*. Yn y rhaglen cafodd pum ymgeisydd oedd ar fin cael eu hordeinio'n offeiriad neu'n weinidogion mewn gwahanol enwadau eu cyf-weld ynghylch eu gobeithion i'r dyfodol. Pum mlynedd yn ddiweddarach, sef y mis diwethaf, fe wnaeth y BBC ofyn i fi wneud rhaglen i weld sut mae gweinidogaeth y pum unigolyn yna'n mynd erbyn hyn, a chlywed y diweddaraf ganddyn nhw.



Ond mae hynny wedi bod yn haws dweud na gwneud. O'r pump, fe glywn nigan *un* – caplan carchar! O'r lleill, mae un bellach yn weinidog ordeiniedig ond ar absenoldeb mamolaeth. Mae un arall ar absenoldeb salwch oherwydd 'blinder llwyr, iselder ac ansicrwydd'. Mae un wedi gadael y weinidogaeth blwyf ac mae'r llall wedi mynd dramor.

Wrth gwrs, mae'r sampl yn un bach, ond a ddylai'r ffaith mai dim ond un o'r pum gwreiddiol sydd yn y gwaith ar hyn o bryd achosi pryder i ni?

Oherwydd nad oedd pedwar o'r pum gwreiddiol ar gael i'r ail raglen, roedd yn rhaid llunio rhaglen wahanol. Felly, penderfynon ni ganolbwyntio ar y rhesymau tu ôl i'r ystadegau – pam

mae cymaint o weinidogion yn gadael y gwaith pwysig hwn? Wrth siarad â swyddogion yn yr eglwysi Anglicanaidd, Catholig a Methodistaidd, yn ogystal â phennaeth Coleg y Bedyddwyr, daeth un rheswm i'r brig – erbyn hyn mae'n rhaid i weinidogion fod yn weinyddwyr. Maen nhw'n dod i'r weinidogaeth gyda galwad i fugeilio'u praid, pregethu'r gair a sicrhau bod bywyd sacramentaidd yr eglwys yn ffynnu. Ond, mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf o'u hamser yn gaeth i ateb e-byst, cadeirio pwyllgorau, trefnu rotas, cynllunio cyllideb, deall cyfraith elusennau, edrych ar ôl mynwentydd, gwneud ceisiadau am arian, delio â materion diogelu, ac yn y blaen. Ac yn aml iawn, dydy sgiliau bugeiliol a sgiliau gweinyddol ddim yn mynd gyda'i gilydd yn yr un person! Does dim syndod, felly, fod straen a gorweithio'n broblemau go iawn.

Wrth gwrs, mae hon yn broblem i weinidogion a'r rhai sy'n eu hyfforddi, ond dwi'n meddwl ei bod hi'n broblem i bob eglwys hefyd – am ddau reswm.

Yn gyntaf, yn ein capeli anghydfurfiol, yr eglwys (ac yn arbennig y diaconiaid) sy'n gyfrifol am les y gweinidog. Mae llawer o'n haelodau'n dal i ddisgwyl i'r gweinidog wneud cymaint o waith bugeiliol a phregethu ag yr oedd ef neu hi yn ei wneud o'r blaen – heb ddeall y baich gweinyddol sydd ar eu hysgwyddau nhw'r dyddiau hyn.

Ac mae hyn yn arwain at yr ail broblem – yn llawer o'n capeli ni, lle mae'r aelodau'n heneiddio, does neb yn y gynulleidfa â'r sgiliau i helpu'r gweinidog, hyd yn oed os ydyn nhw'n sylweddoli bod yna broblem. Mae'r dasg o fod yn drysorydd eglwys neu'n swyddog diogelu, er enghraifft, wedi mynd yn gymhleth iawn.

Dwi mor ddiolchgar fod cymaint o bobl dalentog a phrofiadol yn y Tabernacl, Caerdydd, sy'n gwneud cymaint o'r

gwaith gweinyddol yma, ac yn fy rhyddhau i ddilyn fy ngalwad. Ond rydym i gyd yn gwybod taw eithriad yw hyn; yn llawer o'n capeli mae'n anodd ffeindio pobl â'r sgiliau a'r iechyd i helpu gyda'r dasg gymhleth o redeg elusen.

Dwi'n falch o weld bod pobl wedi dechrau gweld y broblem hon a chymryd camau i'w datrys. Mae dwy agwedd i'r broblem: cefnogi'r gweinidog, a chefnogi'r eglwys. Mae rhan gyntaf y datrysiad yn dod yn rhannol o newid yr hyfforddiant y mae'r gweinidogion newydd yn ei dderbyn. Gwn fod Coleg y Bedyddwyr, yn ogystal â chynlluniau hyfforddiant mewnol pob enwad, yn ymwybodol o hyn ac wedi newid yr hyfforddiant y maen nhw'n ei gynnig, yn aml mewn ffordd arloesol a chyffrous. Ac wedyn mae rôl hollbwysig i'r enwadau – nid yn unig yn cefnogi'r gweinidog ar ôl iddyn nhw ddechrau ar eu gwaith, ond hefyd i ffeindio ffyrdd newydd ac arloesol i leihau'r baich gweinyddol ar yr eglwys, efallai drwy gynnig gwasanaethau gweinyddol canolog gan eu harbenigwyr. Dwi'n gwybod bod hynny'n digwydd yn barod yn y tri enwad, ac yn bersonol dwi mor ddiolchgar i Undeb y Bedyddwyr am eu holl gefnogaeth.

Gawn ni edrych ar ôl ein gweinidogion! Ac i'r gweinidogion yn eich plith – ym mysgr yr holl e-byst a chyfarfodydd a chofnodion ac agendas, cofiwch eich galwad wreiddiol, a threuliwch amser yn cael eich adnewyddu gan gariad anferthol yr Un a'ch galwodd chi.



# Adolygiad o'r gyfrol *Ffrwyth* gan Gareth Evans-Jones

(Enillydd Medal Ryddiaith Eisteddfod y Garreg Las)



Dyma'r adolygiad anoddaf i mi ei ysgrifennu erioed. Nid am fod *Ffrwyth* yn llyfr gwael, a'r awdur, Gareth Evans-Jones, felly'n gwbl annheilwng o ennill Medal Ryddiaith Eisteddfod y Garreg Las. I'r gwrthwyneb. Mae hon yn gyfrol i'w chadw a'i thrysori gan fynd yn ôl ac yn ôl ati dro ar ôl tro hyd nes y bydd yn sglyfaethus o olion bysedd a thraul. O feddwl mai cyfrol fechan ydi hi, mae'n gyfraniad enfawr i'n llenyddiaeth.

Mae'r weithred o ddarllen yn dibynnu ar gymaint o ffactorau. Ydych chi eisiau llyfr i'ch diddori ar wyliau neu gyda'r nos cyn cysgu? Ydych chi eisiau ffuglen ynteu ffeithiau? Ydych chi angen eich difyrnu ynteu eich herio? Cofiant neu hunangofiant? Pa iaith? Sut iaith? Hyn oll a llawer, llawer mwy o benderfyniadau.

Roedd yn rhaid i mi ysgrifennu'r uchod yn gyntaf. Nid yw disgrifiad moel o'r stori i geisio eich denu i'w darllen yn gwneud cyfiawnder â'r llyfr, na dawn ddigamsyniol yr awdur.

Mae angen crynodeb o'r stori beth bynnag, ond fydd yr ychydig frawddegau nesaf i geisio creu hynny ddim yn deilwng gan fod angen teimlo – a stryffaglo – i fwynhau'r llyfr. Ac mae 'mwynhau' hefyd yn air y gellir

ei ddiffinio a'i ddewis mewn myrdd o ffyrdd gwrthrychol a phersonol. Mae darllen *Ffrwyth* yn heriol, ond unwaith eto, da chi, mentrwch.

Yn fyr ac yn foel, hanes Efa sydd yma o'i chychwyn yng Ngardd Eden i'w bywyd ar ôl ei denu gan y sarff i fwyta'r afal, a hynny'n golygu ei bod hi ac Adda yn cael eu halltudio i fyw yn y byd yn hytrach nag ym mharadwys yr ardd. Cawn hanes ei phrifant o'r asen a'r pridd i fod yn ferch a gwraig lawn pleser a phoen; yn fam gariadus a phryderus; yn weddw ofalus sydd yn mentro i'r byd mawr ac yn crwydro o le i le ac o ganrif i ganrif gan dystio i ddatblygiad y byd a dynoliaeth, er gwell ac er gwaeth.

'Dynoliaeth', cofiwch, nid 'mercholiaeth'. 'Fi demtiodd ddyn,' meddai, yn flin o goeglyd wrth 'sgwrsio' gyda pheiriant Al ar ôl iddi gyrraedd y byd cyfoes. Mae'r peiriant yn swnio yn andros o debyg i'r sarff yn Eden wrth gynnig ail-greu paradwys ac atgyfodi Adda, Cain, Abel a Seth ac ail-greu'r gorau o'u bywyd yn Eden. Fydd hi'n cael ei themtio unwaith eto?

Rhaid crybwyll saerniaeth y stori heb os. Yn gyntaf, yr ieithwedd. Peidiwch, da chi, â digalonni a / neu wylltio wrth ddechrau ei darllen. Mae'r Gymraeg yn tyfu ac yn aeddfedu wrth i'r stori ddatblygu, ac yn ychwanegu at ei hadrodd. Mae rhai darnau yn llawn teimlad, fel anwyldeb hanes marwolaeth Adda, eraill yn grafog pan ofynna'r peiriant i Efa dderbyn mai hi oedd 'tarddiad bodolaeth' y peiriant. Yn ail, mae dychymyg Gareth Evans-Jones y tu hwnt o greadigol ac mae'r plethiad o'r iaith, y dychymyg a'r cynllun wedi creu campwaith.

Eto, eto ac eto fyth, felly, darllenwch *Ffrwyth*. Ydw i wedi eich temtio chi?

Bethan Jones Parry

## Y COLEG GWYN

COLEG Y Bedyddwyr, BANGOR



### OEDFA I DDIOLCH AM WASANAETH Y COLEG YM MANGOR

Sefydlwyd Coleg Bedyddwyr Gogledd Cymru yn Llangollen yn 1862 cyn symud i Fangor yn 1892. O ddiwedd Medi eleni, ymunodd yn swyddogol â Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd, gan greu un coleg ar gyfer hyfforddi gweinidogion Bedyddiedig yng Nghymru.

Croesewir cyfeillion y Coleg, ei gyn-fyfyrwyr ac eraill a elwodd o'i wasanaeth ar hyd y blynyddoedd, i ymuno â ni ar gyfer oedfa dathlu.

Fe'i cynhelir am **2 o'r gloch, prynhawn Gwener, 16 Hydref 2026**, yng Nghapel Emaus, Ffordd Garth, Bangor, LL57 2RL

*Bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn*

**DEWCH YNGHYD I DDIOLCH**

### Gofalaeth Newydd Gogledd Ceredigion

Seion, Aberystwyth;  
Bethel, Tal-y-bont  
Horeb, Penrhyn-coch;  
Bethel, Aberystwyth

### Cynhelir Oedfa Sefydlu

**Y Parchedig J. Geraint Morse BD, MTh**

yn Weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist

**Ddydd Sadwrn,  
7 Tachwedd 2026,  
am 2.00 y.p.**

ym Methel, Tal-y-bont

*Estynnir croeso cynnes i chwi ymuno  
â chyfeillion yr eglwys  
ar yr achlysur hwn*

*Darperir lluniaeth ysgafn yn Neuadd  
Goffa Tal-y-bont wedi'r oedfa*

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** **Aled Davies:** aled@ysgolsul.com

**Huw Powell-Davies:** huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

**Gwefan:** [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | **Facebook:** CennadCymru | **X:** @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan **Eglwys Bresbyteraidd Cymru** ac **Undeb Bedyddwyr Cymru**.

*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol [www.panel.cymru](http://www.panel.cymru)

ar **01745 817584**  
neu **07957 510346**

yn ystod oriau swyddfa

neu **Thirtyone:eight** ar **0303 0031111**

am gyngor tu allan i oriau swyddfa.

